

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Polisi Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar nos Fercher, Chwefror 7^{fed}, 2018 am 7.10 yh.

Presennol	Mrs J. Collins (Cadeirydd y Cyngor)
Cynghorwyr	D. Hopkins P. H. Roberts
Ymddiheuriadau	
Cynghorwyr	I. Rh. Llewelyn C.J Harris Mrs K.D.L Davies

212.

Adolygiad o Bolisiau a Dogfennau

(i) Cofrestr Asedau – roedd y Clerc wedi diweddarau'r gofrestr ac wedi cynnwys y gliiniadur newydd a brynodd y Cyngor at ddefnydd y Clerc. Yn unol â'r hyn a argymhellwyd gan Un Llais Cymru, roedd y parciau a'r ardaloedd chwarae a berchnogir drwy brydles neu drwydded wedi'u cynnwys gyda gwerth o £1.

(ii) Archwiliwyd yr holl ddogfennau a pholisïau eraill, ac **argymhellwyd** y dylent aros yn ddigynfnewid, fel y cytunwyd ym mis Chwefror 2017.

213.

I ystyried Polisi Cyflog drafft

Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried Polisi Cyflog drafft sy'n dilyn y templed a argymhellwyd gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac Un Llais Cymru. Mae'r polisi yn cydnabod rheoli cyflogau yn deg, gwobrwyo staff yn deg, cynnig cyfle cyfartal, a defnyddio cynlluniau cyflog a negodwyd yn genedlaethol. **Argymhellwyd** y dylid mabwysiadu'r polisi.

214.

I ystyried Polisi Cronfeydd wrth Gefn drafft

Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried Polisi Cronfeydd wrth Gefn drafft sy'n dilyn templed a argymhellwyd gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac Un Llais Cymru. Mae angen i'r Pwyllgor Cyllid adnabod y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac a Glustnodwyd yn flynyddol, wedi iddynt ystyried argymhellion y pwyllgor Datblygu Cymunedol. **Argymhellwyd** y dylid mabwysiadu'r polisi.

215.

Rheoliadau Cyffredinol Gwarchod Data

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu nifer o gyflwyniadau ynghylch y Rheoliadau Cyffredinol Gwarchod Data (RhCGD) yn ddiweddar, ac wedi dweud wrth yr Aelodau y byddai mwy o graffu ar ein gweithdrefnau cadw gwybodaeth sensitif. Bydd angen adolygu diogelwch systemau TG y Cyngor ac argymhellwyd bod y Clerc yn cysylltu â'n prif gyflenwr, Morgan a Morgan Ltd., Cross Hands, er mwyn adolygu'n systemau presennol, ac i wneud argymhellion i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r RhCGD. Mae Morgan a Morgan yn un o'r ychydig iawn o gwmnïau arbenigol achrededig sy'n delio â materion fel hyn.

216.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.30 yh.

Cadeirydd